



Darparu Llawdriniaeth Fasgwlaidd i Oedolion yn Ne-ddwyrain Cymru

Cwestiynau cyffredin

Cynnwys

1. Beth yw llawdriniaeth fasgwlaidd?
2. Beth yw rhwydwaith fasgwlaidd?
3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng canolfan rydweliol a chanolfan nad yw'n rhydweliol?
4. Beth yw manteision y cynigion hyn?
5. Faint o gleifion y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt?
6. A fydd yn rhaid imi deithio ymhellach i gael triniaeth?
7. Beth sy'n digwydd nawr os caf fy atgyfeirio ar gyfer llawdriniaeth fasgwlaidd?
8. Pam mae angen newid gwasanaethau llawdriniaeth fasgwlaidd?
9. Pam dewis Ysbyty Athrofaol Cymru fel y brif ganolfan?
10. Ble mae'r ysbytai lloeren a gynigir?
11. Sut y caiff gwasanaethau fasgwlaidd eu darparu mewn mannau eraill yng Nghymru?
12. A yw ein meddygon yn cefnogi'r newidiadau hyn?
13. Beth sy'n digwydd nesaf?
14. Sut ydw i'n gallu cymryd rhan?

1. Beth yw gwasanaethau fasgwlaidd?

Y system fasgwlaidd yw'r rhwydwaith cydgysylltiedig o bibellau gwaed (gwythiennau a rhydweliâu) sy'n cysylltu â'r galon a'r ysgyfaint ac yn darparu ocsigen a maethynnau i holl organau a meinweoedd y corff.

Mae clefyd fasgwlaidd yn gyflwr sy'n effeithio ar rwydwaith eich pibellau gwaed.

Prif nod gwasanaethau fasgwlaidd yw ailadeiladu, rhyddhau neu ddargyfeirio rhydweliâu i adfer llif gwaed i organau. Mae'r rhain fel arfer yn driniaethau untro, yn bennaf er mwyn lleihau'r risg o farwolaeth sydyn, atal strôc, lleihau'r risg o drychu a gwella ansawdd bywyd.

Ni fydd angen ymyrraeth lawdriniaethol neu endofasgwlaidd ar lawer o gleifion a atgyfeirir at arbenigwr fasgwlaidd, ond yn hytrach sicrwydd a chynghor ar ffordd o fyw (colli pwysau, gwneud ymarfer corff yn rheolaidd), ynghyd â mesurau i leihau eu risg o gael clefyd y galon, strôc a thrychu yn y dyfodol.

Mae angen archwiliadau pellach ar rai cleifion fasgwlaidd sydd fel arfer yn cynnwys trefnu sgan o'u pibellau gwaed. Dim ond cyfran fach fydd angen ymyrraeth neu lawdriniaeth.

2. Beth yw rhwydwaith fasgwlaidd?

Nod rhwydwaith fasgwlaidd yw gwella canlyniadau cleifion, a sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy ac yn deg ar gyfer y boblogaeth maent yn ei gwasanaethu. Mae rhwydwaith fasgwlaidd yn darparu gwasanaethau fasgwlaidd cydlynol i boblogaeth ar draws ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys nifer o ysbytai gwahanol.

Mae gwasanaethau fasgwlaidd ar draws y GIG yn Lloegr, Gogledd Cymru a Gorllewin Cymru eisoes wedi'u hailgyflunio yn fodelau gofal ar sail rhwydwaith ers nifer o flynyddoedd.

Mae'r rhan fwyaf o rwydweithiau yn gweithredu model gofal 'prif ganolfan a lloerennau' sy'n canolbwyntio ar gynnal llawdriniaethau fasgwlaidd mawr, rhai brys a rhai mewn argyfwng mewn un ysbyty arbenigol, y 'brif ganolfan'. Tra bod mân lawdriniaethau, archwiliadau, asesiadau, adfer yn dilyn llawdriniaeth ac apwyntiadau cleifion allanol yn dal i gael eu cynnal mewn ysbytai lleol, y 'lloerennau'.

3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng prif ganolfan a lloerennau?

Y gwahaniaethau holl bwysig rhwng prif ganolfan a lloerennau yw difrifoldeb y cyflyrau sy'n cael eu trin a chymhlethdod y llawdriniaethau a gynhelir. Mae'r brif ganolfan yn derbyn yr holl argyfyngau fasgwlaidd sy'n gofyn am ymyrraeth fasgwlaidd neu

endofasgwlaidd, ynghyd â gofal brys yr holl gleifion fasgwlaidd. Mae ganddi welyau penodedig ar gyfer cleifion mewnol fasgwlaidd mewn ward sydd wedi'i staffio gan nyrsys sydd â diddordeb mewn llawdriniaeth fasgwlaidd. Mae ysbyty lloeren yn darparu popeth ar wahân i ofal fasgwlaidd cymhleth ac mewn argyfwng, ac nid oes ganddo unrhyw welyau ysbyty fasgwlaidd penodedig.

4. Beth yw manteision cynigion y rhwydwaith ar gyfer De-ddwyrain Cymru?

Gwyddom fod gwasanaethau llawdriniaeth fasgwlaidd wedi'u canoli mewn prif ganolfan, fel rhan o rwydwaith, gydag ysbytai lloeren cefnogol, yn rhoi canlyniadau gwell i gleifion. Credwn y bydd model rhwydwaith prif ganolfan a lloerennau ar gyfer gwasanaethau fasgwlaidd yn fwy gwydn a hyblyg ar gyfer y dyfodol. Drwy hyn, rydym yn golygu:

- Bydd yn gallu darparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion
- Bydd yn gallu denu staff arbenigol iawn
- Ymdopi'n well â phroblemau annisgwyl fel absenoldebau neu salwch staff
- Darparu dull mwy cydweithredol o ddarparu a datblygu gwasanaethau fasgwlaidd ar gyfer y dyfodol
- Sicrhau bod hyfforddiant a datblygiadau ar gyfer staff yn gallu cael eu rhannu a'u darparu ar draws y rhanbarth

5. Faint o gleifion y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt?

Amcangyfrifir y bydd yn debygol bod angen llawdriniaeth fasgwlaidd ar oddeutu 1250 o gleifion ar draws De-ddwyrain Cymru y flwyddyn. Mae'r amcangyfrifiad hwn yn seiliedig ar y niferoedd o'r flwyddyn 2019, a welodd 456 o gleifion yn cael eu trin yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd, 355 yn cael eu trin yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant a 437 yn cael eu trin yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd.

6. A fydd yn rhaid imi deithio ymhellach i gael triniaeth?

Os ydych yn byw yn ardal De Powys, ac mai Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Merthyr Tudful yw eich ysbyty brys agosaf neu Ysbyty Athrofaol y Faenor yng Nghwmbrân, yna'r ateb o bosib yw, bydd, ond dim ond os ydych yn cael llawdriniaeth arbenigol neu gymhleth a dim ond ar gyfer y rhan honno o'ch triniaeth. Ni fydd gweddill eich profion, triniaethau, adferiad ac apwyntiadau yn newid ac fe'u cynhelir yn yr un lle â'u cynhelir ar y foment - sef mewn ysbyty sy'n fwy lleol i chi.

7. Beth sy'n digwydd nawr os caf fy atgyfeirio ar gyfer llawdriniaeth fasgwlaidd?

Byddech yn derbyn eich llawdriniaeth fasgwlaidd yn un o dri safle ysbyty sef;

Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd

Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant (gweler y nodyn isod)

Ysbyty Athrofaol y Faenor, Cwmbrân (gweler y nodyn isod)

Ar yr adeg ysgrifennu mae trefniant dros dro brys ar waith ar gyfer preswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Ar hyn o bryd, mae cleifion yn cael eu gweld naill ai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan neu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gan nad oedd modd darparu'r gwasanaeth ar ddiwedd 2020.

Arferai gwasanaethau fasgwlaidd yng Ngwent gael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Gwent cyn y newidiadau a gafwyd ym mis Tachwedd 2020 pan symudwyd y gwasanaethau i Ysbyty'r Faenor.

8. Pam mae angen newid gwasanaethau llawdriniaeth fasgwlaidd?

Rydym am sicrhau ein bod yn darparu'r gofal gorau posibl i bobl sydd angen llawdriniaeth fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru.

Gwyddom fod:

- Llawdriniaeth fasgwlaidd yn dod yn fwyfwy arbenigol a bod tystiolaeth yn dangos bod cleifion yn cael canlyniadau gwell os ydynt yn derbyn eu triniaeth mewn canolfannau arbenigol mwy o faint
- Mae Coleg Brenhinol y Llawfeddygon a Chymdeithas Fasgwlaidd Prydain Fawr ac Iwerddon yn cefnogi'r farn nad yw'n ddymunol mwyach i ddarparu llawdriniaeth frys neu mewn argyfwng y tu allan i wasanaeth llawn wedi'i ganoli, neu rwydwaith clinigol ffurfiol, gydag un ganolfan rydweliol benodedig yn darparu gwasanaeth 24/7 ar y safle.
- Mae prinder staff arbenigol i ddarparu'r unedau fasgwlaidd presennol yn golygu na allwn ddarparu'r gwasanaeth yn ddiogel, fel yr ydym wedi'i wneud yn y gorffennol, a darparu'r cyfleoedd a hyfforddiant i ddatblygu staff y gall gwasanaethau fasgwlaidd eraill sydd wedi'u canoli ei wneud.

9. Pam dewis Ysbyty Athrofaol Cymru fel y brif ganolfan?

Mae rolau hefyd ar gyfer llawdriniaeth fasgwlaidd sy'n cefnogi arbenigeddau mawr eraill e.e. trawma, niwrolawdriniaeth, llawdriniaeth gardiaidd, dermatoleg, gwasanaethau labordy clinigol, arenneg, llawdriniaeth blastig a disgyblaethau eraill.

O ystyried yr ystod o wasanaethau sydd eisoes yn cael eu cynnal ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru, ei sefyllfa fel darparwr arbenigol llawdriniaeth trawma mawr, llawdriniaeth cardioleg ymyriadol a cardio-thorasig, a'r cyd-ddibyniaethau rhyngddynt a'r gwasanaeth fasgwlaidd, y dull a ffefrir ar gyfer lleoli'r brif ganolfan, a nodwyd gan uwch feddygon o'r tri Bwrdd Iechyd sy'n darparu gwasanaethau, yw Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd.

10. Ble mae'r ysbytai lloeren a gynigir?

O ystyried yr angen am Adran Damweiniau ac Achosion Brys dan arweiniad meddygon ymgynghorol a gwasanaeth llawdriniaeth gyffredinol frys, cynigir y canlynol fel yr ysbytai lloeren ar gyfer pob un o'r ardaloedd:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan - Ysbyty Athrofaol y Faenor ac Ysbyty Brenhinol Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg - Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Ysbyty Athrofaol Cymru a gwasanaeth adsefydlu yn cael ei ddarparu yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Nid oes newid i wasanaethau ar gyfer preswylwyr Caerdydd a'r Fro.

Mae'n bwysig nodi, wrth i gleifion ddechrau eu taith adfer ac adsefydlu, y bydd hyn hefyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliad ysbyty/cymunedol a fydd mor agos i'w cartref â phosibl e.e. Ysbyty Nevill Hall neu Ysbyty Ystrad Fawr.

11. Sut mae gwasanaethau fasgwlaidd yn gweithio mewn rhannau eraill o Gymru?

Caiff poblogaeth gogledd Cymru ei gwasanaethu gan rwydwaith, gydag Ysbyty Glan Clwyd, yn y Rhyl, fel y brif ganolfan. Caiff clinigau fasgwlaidd, archwiliadau, diagnosteg, mynediad fasgwlaidd a llawdriniaethau gwythiennau chwyddedig eu darparu gan dri ysbyty dosbarth lloeren, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Yn Ne-orllewin Cymru caiff y boblogaeth ei gwasanaethu gan rwydwaith, gydag Ysbyty Treforys fel y brif ganolfan a'r gwasanaethau lloeren yn cael eu darparu mewn sawl ysbyty yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

12. A yw ein meddygon yn cefnogi'r newidiadau hyn?

Fel rhan o'r broses sy'n arwain at yr ymgysylltu, ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi bod yn siarad â'n timau fasgwlaidd i ddeall eu safbwyntiau a chael eu mewnbwn. Mae pobl sy'n gweithio o fewn ein gwasanaethau fasgwlaidd presennol yn dweud wrthym eu bod yn cefnogi'r ffaith fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu fel rhan o rwydwaith fasgwlaidd gydag un 'brif ganolfan' rydweliol a nifer o 'loerennau' nad ydynt yn rhydweliol. Byddwn yn parhau i siarad â staff y GIG ar draws De-ddwyrain Cymru drwy gydol y broses ymgysylltu, ymgynghori a gweithredu.

13. Beth sy'n digwydd nesaf?

Unwaith bydd yr ymarfer ymgysylltu hwn wedi gorffen, byddwn yn ystyried yr holl adborth ac yn ei rannu gyda'r Byrddau Iechyd unigol a'r Cyngorau Iechyd Cymuned perthnasol. Byddwn hefyd yn rhyddhau adroddiad i'r cyhoedd sy'n rhoi crynodeb o'r sylwadau, cwestiynau ac awgrymiadau sydd wedi'u derbyn. Byddwn yn ystyried yr holl faterion ac a oes unrhyw gamau lliniaru y mae angen eu cymryd. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a dderbyniwyd i ddiweddarau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Yn amodol ar drafodaethau pellach gyda'r Cyngorau Iechyd Cymuned, mae'n bosibl y byddwn am gynnal ymgynghoriad ffurfiol ac os gwnawn hynny byddwn unwaith eto yn gofyn am eich safbwyntiau.

14. Sut ydw i'n gallu cymryd rhan?

Dyma ddechrau ein sgwrs gyda chi ynghylch gwasanaethau fasgwlaidd yn Ne-ddwyrain Cymru. Hoffem glywed eich safbwyntiau ynghylch yr hyn rydych chi wedi'i ddarllen.

Rydym yn gofyn yn benodol:

- A ydych yn deall beth yw gwasanaethau fasgwlaidd
- Sut y caiff gwasanaethau fasgwlaidd eu darparu ar hyn o bryd
- Yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau a rhai o'r opsiynau sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer trefnu a darparu'r gwasanaethau yn y dyfodol.

Ceir mwy o wybodaeth ar y tudalennau gwe penodedig, yn ogystal ag arweiniad ar sut y gallwch gymryd rhan a dweud eich dweud.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan:

www.bipab.gig.cymru/FasgwlaiddDDdCymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

www.bipcaf.gig.cymru/FasgwlaiddDDdCymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

cwmtafmorgannwg.wales/FasgwlaiddDDdCymru

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys:

www.biap.gig.cymru/yma/FasgwlaiddDDdCymru